TGAU Busnes

Cyflwyniad

Mae'r cymhwyster TGAU Busnes yn cael ei ddiwygio yng Nghymru i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2017. Caiff y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig ei ddatblygu gan CBAC a dyma fydd yr unig fersiwn o'r cymhwyster fydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru, gan nad oes unrhyw fwrdd arholi arall wedi penderfynu datblygu'r cymhwyster hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru. Fel rhan o'r broses ddiwygio, rydym yn ceisio barn ar ein cynigion o ran cynnwys, strwythur ac asesiad y cymhwyster diwygiedig.

Rydym wedi llunio'r cynigion yn yr holiadur hwn mewn ymgynghoriad â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y corff dyfarnu, CBAC, ymarferwyr mewn ysgolion a cholegau, prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Bydd canlyniadau'r holiadur hwn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu meini prawf dylunio ar gyfer y cymhwyster: TGAU Busnes. Caiff y fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer y cymhwyster diwygiedig TGAU Busnes eu llunio a'u cymeradwyo ar sail y meini prawf cymeradwyo a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru.

Nodau a chynnwys pwnc

Gellir dod o hyd i'r meini prawf pwnc presennol ar gyfer TGAU Astudiaethau Busnes yn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371229/2011-11-25-gcse-subject-criteria-for-business-subjects.pdf

Mae'r cymhwyster TGAU Busnes yn cael ei ddiwygio yn Lloegr i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2017. Mae'r rhanddeiliaid rydym wedi ymgynghori â hwy hyd yn hyn wedi ystyried y newidiadau yn y cymhwyster hwn er mwyn sicrhau bod y cymwysterau diwygiedig yng Nghymru a Lloegr yn gyson â'i gilydd. Gellir dod o hyd i'r cynnwys pwnc ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yn Lloegr yn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/485407/Business_GCSE.pdf

Nodau ac amcanion pwnc

Cynigiwn gadw'r nodau a'r deilliannau dysgu pwnc presennol:
Rhaid i fanylebau TGAU Busnes alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- mynd i'r afael yn weithredol ag astudio busnes a datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol â meddyliau ymholgar;
- defnyddio agwedd ymholgar a beirniadol i wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn ac i adeiladu dadleuon a llunio barn wybodus;
- datblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a'u sgiliau at faterion cyfoes mewn amrywiaeth o gyd-destunau cenedlaethol, lleol a rhyngwladol;
- deall yr amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan randdeiliaid gwahanol mewn perthynas â gweithgareddau busnes ac economaidd;
- ystyried i ba raddau y gall gweithgaredd busnes ac economaidd fod yn foesegol a chynaliadwy.

Hefyd, cynigiwn ychwanegu'r nodau a'r deilliannau dysgu canlynol:

- datblygu a chymhwyso sgiliau meintiol sy'n berthnasol i fyd busnes gan gynnwys defnyddio a dehongli data;
- cysylltu gwybodaeth a dealltwriaeth â chyfleoedd a sefyllfaoedd busnes go iawn a'u cymhwyso at y cyfleoedd a'r sefyllfaoedd hynny.

Gyda'i gilydd, bydd y nodau hyn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyflwyniad bras i fyd busnes gan feithrin dealltwriaeth ddyfnach o ddynameg gweithgarwch busnes ar yr un pryd. Mae'r cynnwys yn disgwyl i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o'r materion presennol ym myd busnes, natur integredig sefydliadau busnes a sut y caiff penderfyniadau eu gwneud.

C1: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r nodau a amcanion pwnc arfaethedig ar gyfer TGAU Busnes yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Cynnwys pwnc

Mae meini prawf pwnc presennol y cymhwyster TGAU Astudiaethau Busnes yn cynnwys nifer o themâu busnes, gan gynnwys:

- gweithgarwch busnes;
- buddiannau rhanddeiliaid;
- cystadleuaeth;
- ansicrwydd;
- cwsmeriaid;
- busnes o fewn cymdeithas;
- gwneud penderfyniadau;
- newidiadau o ran defnyddio TGCh;
- a defnyddio termau, cysyniadau a dulliau perthnasol.

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr wedi pennu'r meysydd cynnwys allweddol newydd ar gyfer y cymwysterau TGAU Busnes diwygiedig yn Lloegr. Y rhain yw:

- gweithgarwch busnes;
- dylanwad ar fusnesau;
- gweithrediadau busnes
- cyllid;
- marchnata;
- ac adnoddau dynol.

Cynigiwn y dylai cynnwys y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yng Nghymru gynnwys y chwe maes cynnwys hyn a'u testunau cysylltiedig fel y'u pennwyd ar gyfer y cwrs TGAU Busnes diwygiedig yn Lloegr.

C2a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Cynnwys Pwnc - Sgiliau meintiol

Nid yw'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Busnes presennol yn cynnwys gofyniad sylfaenol o ran asesu sgiliau meintiol, sy'n cynnwys cyfrifo a dehongli data meintiol. Mae'r cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Busnes yng Nghymru yn dyrannu 10% o'r marciau i asesu sgiliau meintiol. Cynigiwn y dylai o leiaf 10% o'r marciau a ddyrennir mewn arholiadau TGAU Busnes gael eu dyfarnu at gyfer sgiliau meintiol.

Q2b: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r cymhwyster TGAU Busnes gynnwys gofyniad sylfaenol bod 10% o'r marciau yn cael eu dyfarnu ar gyfer sgiliau meintiol?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Mae rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yng Nghymru wedi nodi bod angen mynegi technegau mathemategol (yn enwedig cyfrifiadau) yn y cymhwyster TGAU Busnes. Mae'r farn hon yn cyd-fynd â chynnwys pwnc y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yn Lloegr. Cynigiwn y dylai meini prawf pwnc y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gymhwyso amrywiaeth o dechnegau mathemategol mewn cyd-destun busnes, gan gynnwys cyfrifo'r canlynol:

- canrannau a newidiadau mewn canrannau;
- cyfartaledd;
- refeniw, costau ac elw;
- cymarebau maint elw gros a maint elw net;
- cyfradd adennill gyfartalog;
- rhagolygon llif arian, gan gynnwys cyfanswm costau, cyfanswm refeniw a llif arian net;

C2c: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai asesu cyfrifiadau mewn cyd-destun busnes fod yn rhan ofynnol o'r cymhwyster TGAU Busnes?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Amcanion asesu

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcanion asesu ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes presennol:

Amcan	Gofynion	Pwysoliad
AA1	Dwyn i gof, dewis a chyfleu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau, materion a therminoleg.	25-35%
AA2	Cymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau a chyflawni ymchwiliadau a thasgau.	35-45%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, llunio barn resymol a chyflwyno casgliadau.	25-35%

Cynigir yr amcanion asesu canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yn Lloegr:

Amcan	Gofynion	Pwysoliad
AA1	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion busnes	35%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion busnes at amrywiaeth o gyd-destunau busnes	35%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a materion busnes er mwyn dangos dealltwriaeth o weithgarwch busnes, llunio barn resymol a dod i gasgliadau	30%

Roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy wrth lunio'r holiadur hwn yn teimlo y byddai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Busnes yn Lloegr yn briodol ar gyfer y cymhwyster diwygiedig yng Nghymru. Mae cynnwys newydd y cymhwyster diwygiedig yn ategu'r pwysoliad ar gyfer AA1 a cheir cydbwysedd rhesymol rhwng yr amcanion asesu. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn teimlo bod cymhareb briodol o ofynion gwybyddol is i uwch o fewn yr amcanion asesu, sy'n briodol i gymhwyster TGAU.

Cynigir y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau yn y tabl uchod (TGAU Busnes diwygiedig yn Lloegr) fod yn berthnasol i'r cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yng Nghymru.

C3: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau arfaethedig fod yn berthnasol i'r cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yng Nghymru?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mae'r fanyleb bresennol ar gyfer y cymhwyster TGAU Astudiaethau Busnes yn cynnwys asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau (a nodir ar hyn o bryd fel 'tasg asesu a reolir'). Y pwysoliad yw 75% arholiad a 25% asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau.

Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy wrth lunio'r cynnig hwn o'r farn nad yw asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau yn cynnig digon o werth i broses asesu'r cymhwyster TGAU Busnes ac y gall dynnu oddi ar y dysgu a'r addysgu. Mae arholiadau'n briodol ar gyfer gofynion y pwnc o ran cynnwys a sgiliau, gan alluogi myfyrwyr i arddangos gwybodaeth, dealltwriaeth, a'r gallu i gymhwyso, dadansoddi a gwerthuso cysyniadau busnes craidd.

Cynigiwn y caiff y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yng Nghymru ei asesu'n ffurfiol drwy arholiadau yn unig.

C4: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i asesu'r cymhwyster TGAU Busnes yng Nghymru drwy arholiadau yn unig?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

Haenu

Mewn rhai cymwysterau TGAU, caiff rhan o'r cymhwyster, neu'r cymhwyster cyfan, ei asesu drwy bapurau arholiad haenog. Mewn asesiadau haenog, mae gwahanol raddau ar gael ar bob haen; yn y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU y graddau posibl yw A* i D yn yr haen uchaf, a graddau C i G yn yr haen sylfaen. Mae cymwysterau TGAU mewn rhai pynciau yn haenog oherwydd ar gyfer rhai pynciau caiff lefel anhawster yr asesiad ei phennu yn fwy gan y ffordd y mae ymgeiswyr yn ymateb i gwestiynau (cwestiynau ar ffurf traethawd er enghraifft) yn hytrach na'r cwestiwn ei hun, tra mewn pynciau eraill caiff y lefel o anhawster ei phennu'n fwy gan natur y cwestiwn a ofynnir na'r ateb a roddir (megis lle nad oes ond un ateb cywir). Mae pynciau sy'n dibynnu mwy ar anhawster y cwestiynnau i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr yn tueddu i gael asesiad haenog. Mae asesiad haenog yn osgoi'r heriau sy'n gysylltiedig â cheisio gosod un papur er mwyn asesu carfan gyfan. Oni fyddai'r pynciau hyn yn haenog, yna byddai'n rhaid i'r papurau arholiad fod yn fwy er mwyn cynnwys digon o gwestiynau ar bob lefel o anhawster, a fyddai'n cynyddu faint o asesiad y byddai ei angen. Mae hefyd risg y byddai'r asesiad yn llai dibynadwy, oherwydd bod ymchwil yn dangos bod yr ymgeiswyr mwy galluog yn aml yn colli marciau ar gwestiynau llai heriol a bod ymgeiswyr llai galluog yn colli cymhelliant gan y cwestiynau mwy heriol.

Mae'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru yn argymell “dim ond pan fydd achos clir dros wneud hynny oherwydd natur y pwnc y dylid caniatáu haenu ”.

Cynigiwn na fydd y cymhwyster TGAU Busnes diwygiedig yn gymhwyster haenog.

C5: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig na fydd y cymhwyster TGAU Busnes yn gymhwyster haenog?

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

C6: Yn eich barn chi, pa gymorth ac adnoddau y gallai fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod yn gwbl barod i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig?

Rhowch sylwadau

Effaith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchodedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

C7: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.

TGAU Busnes

Manylion personol

Cyfranogwyr dan 16 oed - gofynnir i BEIDIO â llenwi'r adran hon

Os byddwch yn rhoi manylion cyswllt, efallai y gwnawn gysylltu â chi am eglurhad o'ch atebion. Ni fydd Cymwysterau Cymru yn rhannu'r manylion hyn, na'ch atebion, ag unrhyw drydydd parti.

Manylion personol

Enw

Sefydliad

Cyfeiriad ebost

A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran eich sefydliad?

- ◯ Unigolyn
- ◯ Sefydliad

Dewiswch y math o sefydliad neu dewiswch 'ddim yn gymwys' os ydych yn ymateb fel unigolyn.

- ◯ Ysgol
- ◯ Coleg
- ◯ Prifysgol
- ◯ Corff Dyfarnu Cymwysterau
- ◯ Llywodraeth (Lleol, Cenedlaethol, DU neu UE)
- ◯ Ddim yn Gymwys

Ydych chi'n (dewiswch fel sy'n briodol)

- [ ] Athro/athrawes
- [ ] Darlithydd Coleg
- [ ] Darlithydd Prifysgol
- [ ] Myfyriwr
- [ ] Rhiant
- [ ] Arall